JONES, JONATHAN (1745 - 1832), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Jonathan Jones
Dyddiad geni: 1745
Dyddiad marw: 1832
Plentyn: David Jones
Plentyn: John Jones
Rhiant: Mary Morgan
Rhiant: John Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Evan David Jones

Ganwyd ger Capel Llanfihangel ym mhlwyf Abergwili, 1745, yr ieuengaf o bum plentyn John a Mary Morgan. Addolai ei rieni yng nghapel Pant-teg. Prentisiwyd ef yn of fel ei dad, a bu'n gweithio i William Thomas, Llanllwni, a phan symudodd hwnnw i Lanwenog cymerodd yntau at ei efail. Ymaelododd gyda'r Annibynwyr ym Mhencader ac anogwyd ef i bregethu. Galwyd ef i fod yn weinidog yn Rhydybont, Llanybyddair, ac yno yr urddwyd ef, 9 Awst 1775. Bu llwyddiant ar ei weinidogaeth yno ac yn y cylchoedd. Yr oedd yn flaenllaw yng nghyfarfodydd misol a chwarterol yr Annibynwyr. Pregethai'n gyson am gyfnod yn Horeb, Gwernogle, ac Abergorlech. Bu gofal eglwys Pencader arno hefyd dros gyfnod. Cafodd alwad i'r Brychgoed ond dewisodd aros yn Rhydybont. Ffurfiwyd eglwys, ac adeiladwyd capel, ym Maes Nonni drwy ei ymdrechion ef, 1810. Yn 1815, aeth o dan gwmwl, ond adferwyd ef i bregethu a pharhaodd yn weinidog ar eglwys Troedyrhiw, Dihewyd, a sefydlesid ganddo. Bu farw 18 Chwefror 1832, a chladdwyd ef yn Rhydybont. Priododd ddwywaith a bu iddo 11 o blant o'i wraig gyntaf. Codwyd ei fab hynaf, John Jones, yn weinidog, a David Jones yn llawfeddyg, ond bu ef farw yn ieuanc. Disgrifir ef fel dyn cryf, pregethwr ffraeth, uchel-Galfinaidd ei ddiwinyddiaeth, ac amddiffynnwr bedydd babanod.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Y Diwygiwr, 1836, 37-40, 69-72

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 547-50; iv, 99-100

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733691

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, E. D., (1953). JONES, JONATHAN (1745 - 1832), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-JON-1745

Copïo ir clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government